CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 5

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Guy Lacey
Cadeirydd, Colegau Cymru

Cc: Philip Blaker
Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru

22 Mawrth 2023

**Eich barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

Annwyl Guy,

Fel y gwyddoch, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wrthi'n ymgymryd ag ymchwiliad hirdymor i weithredu diwygiadau allweddol ym maes addysg a basiwyd yn ystod y Senedd ddiwethaf (2016-2021), gan gynnwys Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Fel y gwyddoch hefyd, mae system addysg Cymru'n cael ei diwygio'n sylweddol. Sefydlwyd y Cwricwlwm i Gymru ("y Cwricwlwm") o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Cyflwynwyd y Cwricwlwm mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022 a bydd yn dod yn statudol ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ym mis Medi 2023. Bydd y Cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn ychwanegol wrth i'r carfanau hyn symud drwy'r ysgol uwchradd nes iddo gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27.

Caiff y Cwricwlwm ei lywio gan 'bedwar diben' a'i nod yw canolbwyntio ar addysgu a dysgu 'yr hyn sy'n bwysig' o fewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Dywed Llywodraeth Cymru mai nod y Cwricwlwm yw "[p]aratoi pobl ifanc i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd uwch, i ddod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, ac i fod yn ddinasyddion hyderus, galluog a thosturiol – dinasyddion Cymru a dinasyddion y byd."[1]

Bydd y Cwricwlwm yn cael ei addysgu i ddysgwyr rhwng 3 ac 16. Mae angen diwygio cymwysterau yn sylweddol, a chaiff hyn ei lywio gan y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, Cymwysterau Cymru. Er nad yw safonau A ac AS yn cael eu diwygio, ac er nad yw peth o sylwedd manwl cymwysterau'r

[1] Llywodraeth Cymru, 'Mae Addysg yn Newid'

dyfodol yn 16 oed yn gwbl hysbys eto, rydym am fesur barn y sector addysg uwch ynghylch a fydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i bobl ifanc Cymru a Chymru yn ehangach, a sut y bydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i Gymry ifanc a Chymru.

Rydym yn ddiolchgar am yr ymateb a gyflwynwyd gennych ym mis Awst y llynedd i'n galwad barhaus am dystiolaeth. I’n cefnogi wrth ddechrau ar y rhan nesaf o’r gwaith yn y maes pwysig hwn, byddwn yn croesawu eich barn ddiweddaraf yn fawr[2] ar unrhyw agwedd ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac yn benodol beth rydych chi'n ei ystyried fydd effaith y Cwricwlwm ar y canlynol:

- derbyn plant a phobl ifanc Cymru i addysg uwch; a’r
- sgiliau cyffredinol y bydd eu hangen ar blant a phobl ifanc Cymru i lwyddo ar gyrsiau addysg uwch.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at gynrychiolwyr y sector Addysg Uwch ledled y DU i holi eu barn ar y materion hyn.

Mae ein gwaith craffu ar weithredu diwygiadau’r cwricwlwm yn parhau yn ystod y Senedd hon (hyd at wanwyn 2026) ac rydym yn croesawu cyflwyniadau ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael unrhyw ymateb y dymunwch ei roi ar y pwyntiau uchod yn benodol erbyn 24 Ebrill 2023 fel y gall lywio ein cyfres nesaf o weithgareddau craffu ar gyfer yr ymchwiliad hwn, sy'n cynnwys craffu ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amserlen hon, neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn neu'r Pwyllgor yn fwy cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod (SeneddPlant@Senedd.Cymru). Fel arall, edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

[2] Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn cynnal cyfres o ymgynghoriadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddyfodol cymwysterau ac nid ydym am ddyblygu na rhagdybio'r gwaith hwnnw mewn unrhyw ffordd. Byddem yn awyddus iawn i glywed eich barn fel y gallant lywio ein gwaith ein hunain yn y maes hwn.